# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 14eg Ebrill 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. Terry Jones - Cadeirydd**

Cyng. John Lee
Cyng. J. Egryn Lewis — Cyng. R. Alwyn Parry
Cyng. J. Huw Owen — Cyng. Henry Jones
Cyn. Margaret Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL :**
**Cynghorydd Sir :** Geraint Bebb
**Heddlu :** C2593 Alison Williams
**Clerc :** Mr. H. Rhys Parry **Cymhorthydd :** Ms. Linda Powell

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn*

**25/001 Ymddiheuriadau :** Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Richard Parry, Cyng. Non W. Parry, Cyng. Gwenan Ll. Evans
**Cynghorydd Sir :** Dylan W. Rees, Non Dafydd, Nicola Roberts

**25/002 Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/003 Heddlu Gogledd Cymru :**

1 PCSO Alison Williams yn datgan nad oedd llawer i'w adrodd yn ôl heno.

- Cyfarfod nesaf o'r Grŵp 'Aml-asiantaeth', Dydd Mawrth 29ain o Ebrill 2025, yn Swyddfa'r Heddlu.
- Gweithio ar y cyd gyda Medrwn Môn i ddosbarthu Holiaduron ac ymgynghori gyda phreswylwyr a'r ieuenctid i dderbyn syniadau a gweledigaeth i'r dyfodol;
- Edrych ar gyllideb cyn mynd dim pellach ;
- Mwy o wybodaeth allan yn gyhoeddus;
- Unigolion yn awyddus i gymryd rhan mewn sefydlu Hwb Ieuenctid. Clerc yn adrodd fod Mr. Kian Evans wedi cysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, gyda syniadau ar gyfer y Fenter hon. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gwahodd Mr. Evans i'r Cyfarfod Llawn nesaf (19.05.2025) i roi Cyflwyniad ar ei gynlluniau o sefydlu Hwb Ieuenctid o fewn y dref.

Heddlu yn gadael y Cyfarfod

**25/004 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 10.03.2025:**
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/005** **I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 10.03.2025 :**

**1** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw at Eitem 24/274 o'r Cofnodion : Materion yn Codi gan Aelodau, wrth gyfeirio bod dau Aelod wedi ymddiswyddo. Clerc yn esbonio fod dwy Sedd Wag, yn dilyn o'r uchod, sef Ward Cyngar a Cefni, ac yn y broses o gael eu hysbysebu.
Clerc yn esbonio ymhellach fod un enw wedi'i dderbyn ar gyfer y broses cyfethol y Sedd Wag arall ar Ward Cefni.

**25/006** **Cynllunio :**

**1** **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 10.03.2025:** Cyng. Alwyn Parry yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
Cyng. John Lee yn dwyn sylw at Gais FPL/2025/4 : Ystâd Parc y Coed, Llangefni, ac yn datgan siom nad oedd cyfraniad ar gael ar gyfer Maes Chwarae. Cadeirydd yn ymateb fod llythyr wedi'i dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn esbonio'r telerau o wrthod, ac wedi eu rhannu gyda'r Aelodau. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

**25/007** **I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Arbennig : I Ystyried Ymhellach yn Dilyn Cyfarfodydd Grwp 'Multi Agency' 17.03.2025 :**
Cyng. Margaret Thomas yn esbonio cefndir y Cyfarfod Arbennig a bod y Grwp Multi Agency yn y broses o gasglu mwy o wybodaeth cyn symud ymlaen gydag unrhyw argymhellion.
Cyng. Henry Jones yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

**25/008** **Pwyllgor Staffio a Safonau : 01.04.2025 :** Dim trafodaeth.

**25/009** **I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**

**1** Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :
**Adroddiad Awdit Cymru :** Ymchwiliadau yn mynd ymlaen dan ofal Un Llais Cymru.

**25/010** **Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**

**25/011** **Adroddiad y Clerc :**
**Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:**

**1** **Sedd Wag – Ward Cefni :** Wedi ei drafod o dan Eitem 25/005.1 o'r Cofnodion.

**2** **Diwrnod Dathlu VE 80 Mlynedd : 08.05.2025 :** Beacon Coffa wedi'i archebu, gyda thri opsiwn o'r lleoliad i'w oleuo : Y Llys (Ar y To); Wrth ymyl y Gofeb; Cae Safle'r Orsedd. Oherwydd bod yr Aelodau'n anghytuno ar y lleoliad, cymerodd y cadeirydd bleidlais drwy godi dwylo, gyda Safle'r Orsedd yn derbyn y mwyaf o bleidleisiau. **PENDERFYNWYD** gosod a goleuo'r Beacon ar Safle'r Orsedd. Clerc yn egluro mai Tirmon y Cyngor Tref fydd yn goleuo'r Beacon oherwydd materion Iechyd a Diogelwch ac Yswiriant.
Clerc yn adrodd yn bellach bydd Cyn-filwyr yn trefnu '1940 Street Party' tu cefn i Westy'r Bull, Dydd Sul 04.05.2025 - croeso i bawb fynychu.

**3** **Camerâu CCTV :** Clerc yn darllen e-bost wedi'i dderbyn gan Gwmni CCTV Services yn cadarnhau bydd 68 o Gamerâu i gyd ar ôl cwblhau'r gwaith eu gosod. Gobeithio bydd cyllideb blwyddyn nesaf i ychwanegu Camerâu i'r ardaloedd sydd â diffyg Camerâu ac yn dioddef o helynt .. Bydd y Camerâu yn cael eu rheoli gan y Cyngor Tref a'u monitor yn yr Orsaf Heddlu.
**Derbyn**

***PARHAD 25/011***

4 **Lon Las Môn :** Mr. Malcolm Rogers (Cyfeillion Lon Las Môn) yn awyddus i roi Cyflwyniad ar gynlluniau o lwybr aml-ddefnydd rhwng Gaerwen ac Amlwch. Aelodau yn cytuno. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc wneud y trefniadau priodol.

5 **Hwb Ieuenctid :** Cyflwyniad dan Mr. Kian Evans i'w drefnu (Wedi'i drafod o dan Eitem 25/003.1 o'r Cofnodion). Clerc i weithredu ar hyn.

**25/012 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :**

1 **Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 11.03.2025 :** Cofnodion yn Atodol er gwybodaeth;

2 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned Ynys Môn 04.02.2025 :** Cofnodion yn Atodol er gwybodaeth.

**25/013 Cyllid :**

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mawrth 2025 :**
Clerc yn ateb cwestiynau'r Aelodau yn ymwneud a'r Fantolen Ariannol. Swyddog Gweinyddol yn rhoi gwybod i Cyng. Egryn Lewis, fod manylion yr Arian Parod ar gael yn y Swyddfa. Yn dilyn o'r uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Mawrth 2025.

2 **Aelodaeth Un Llais Cymru 2025-2026 :** Clerc yn cadarnhau mai £1,540.00 ydyw'r ffi eleni a bod yn godiad sylweddol ers y flwyddyn ddiwethaf. Cyng. Huw Owen yn datgan fod Un Llais Cymru yn gefnogaeth i'r Cyngor Tref a'r Aelodau yn cytuno i dalu'r Aelodaeth eleni. **PENDERFYNWYD** talu Aelodaeth Un Llais Cymru 2025-2026 .
Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw at daliadau Cwmni Worknest ac yn holi beth ydyw cyfnod y taliadau.
*7.25y.h. Cyng. J. Egryn Lewis yn gadael y Cyfarfod*

**25/014 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**

1 Cynghorydd Sir Geraint Bebb yn adrodd ar y canlynol :

- Ffatri '2 Sisters', Ystad Ddiwydiannol yn cael ei dymchwel gyda chynlluniau datblygiadau eraill mewn lle;
- Gwaith yn mynd yn ei flaen ar y llwybr pren yn Nant y Dilyw, (Dingle);
- Parc Busnes;
- Ynys Môn yn paratoi ar gyfer yr ymwelwyr dros gyfnod yr Haf ac yn apwyntio mwy o Wardens i warchod yr Arfordir;
- Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned Ynys Môn 19eg o Fai 2025.

**25/015 Gohebiaeth a Materion Newydd :**
Cadeirydd yn adrodd fod y wybodaeth ar yr Eitem yma wedi atodi i Becyn y Rhaglen Llawn :

1 **Cyfraniadau 2024-2025 :** Llythyrau o ddiolch gan yr Elusennau;

2 **IRPW : Trosglwyddo Swyddogaethau o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru : E-bost 28.03.2025.**

**25/016 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**
**Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Mis Mawrth 2025 :**

1 **Un Llais Cymru : Derbyn**

2 **Materion Eraill : Derbyn**

**25/017 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan y Cadeirydd : Dim**

1 **Amserlen Rhaglen y Cyngor Llawn :** Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a dwyn sylw dylid fod rhybudd o bum diwrnod cyn anfon Rhaglen y Cyfarfod Llawn allan, i roi cyfle i'r Aelodau gynnwys Eitem ar y Rhaglen/darllen o flaen llaw. Cyng. J. Lee yn Eilio Cynnig Cyng. Thomas. Swyddog Gweinyddol yn datgan bydd e-bost yn cael ei anfon i'r Aelodau o flaen y Cyfarfod Blynyddol 12.05.2025, yn unol â'r uchod. Dim trafodaeth bellach.

2 **Ffordd Glandwr, Llangefni :** Cyng. John Lee yn dwyn sylw dylid fod llinellau gwyn yn rhannu yn ddwy 'lane'. Clerc a Cyng. Alwyn Parry yn esbonio, y rheswm pan nad yw'r ffordd wedi cael ei rannu yw bod yn rhaid i gerbydau mawr ddefnyddio ochr dde'r ffordd er mwyn gwneud y tro i'r chwith. Byddai rhannu'r ffordd yn ddau yn arwain at broblemau gan na fyddai bysiau a lloriau yn methu troi i'r chwith. Clerc yn rhoi gwybod i Cyng. Lee fod y mater yma wedi cael ei ystyried yn y gorffennol a ni all y Cyngor Sir newid y drefn. Dim trafodaeth bellach.

**25/018 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :**

**1 Cyfarfod Blynyddol : 12.05.2025**
**2 Cyfarfod Cyngor Llawn : 19.05.2025**

**CYNG. TERRY JONES**
**CADEIRYDD**